

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Cynllun Iaith Gymraeg

Mae'r Cynllun hwn wedi derbyn cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 22 Tachwedd 2010.

Confensiynau:

Mae'r termau 'dwyieithog' ac 'iaith o'u dewis' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg.

Byddwch cystal ag e-bostio info@hefcw.ac.uk neu ffonio 029 2068 2225 os hoffech gael y Cynllun mewn fformat arall.

Cyflwyniad

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (a elwir wedi hyn yn CCAUC) wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd CCAUC yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r holl ymrwymadau a nodir yn y cynllun hwn yn weithredol o'r dyddiad y'u cymeradwywyd oni nodir fel arall.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Sefydlwyd CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Rydym yn gyfrifol am hyfforddiant cychwynnol athrawon o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 a Deddf Addysg 2005.

Ein Cenhadaeth


Mae CCAUC yn defnyddio adnoddau a dderbynnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill mewn ffordd strategol i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru;
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Er mwyn

- cynyddu cyfiawnder cymdeithasol;
- cefnogi economi bywiog.

Ein fframwaith strategol



Wrth gyflawni'r nodau strategol hyn rhoddir sylw clir a chadarnhaol i themâu trawsbynciol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys **dwyieithrwydd**. Gwneir hyn yn arbennig drwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch (AU) a hyfforddi athrawon ysgol a darlithwyr addysg bellach cyfrwng Cymraeg, a thrwy Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ei hun. Byddwn yn cysoni gweithrediad ein Cynllun Iaith Gymraeg â gweithrediad ein Cynllun Cydraddoldeb.

Mae gan Gyngor (bwrdd aelodau) CCAUC hyd at ddeuddeg aelod, gan gynnwys y Cadeirydd. Mynychir cyfarfodydd y Cyngor gan aseswyr a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y Cyngor yn cyfarfod wyth gwaith y flwyddyn fel rheol. Cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn swyddfeydd CCAUC yng Nghaerdydd, er bod hyd at dri chyfarfod yn cael eu cynnal mewn sefydliadau AU yng Nghymru.

Mae CCAUC yn cyflogi oddeutu 55 o staff.

Y mae deuddeg sefydliad addysg uwch yng Nghymru sy'n derbyn cyllid gan CCAUC:

Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Glyndŵr
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Morgannwg
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (APCC)
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant

Cyrff annibynnol yw sefydliadau addysg uwch Cymru. Mae gan bob un ei genhadaeth unigol sy'n golygu bod y sector yng Nghymru yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth academaidd a galwedigaethol i israddedigion a graddedigion amser-llawn a rhan-amser.

Y sefydliadau mwyaf yw Prifysgol Caerdydd gydag oddeutu 27,000 o fyfyrwyr a Phrifysgol Morgannwg gydag oddeutu 20,000. Gellir cymryd rhai cyrsiau addysg uwch, yn enwedig cyrsiau diploma nid-gradd, mewn colegau addysg bellach. Darperir y cyrsiau hyn drwy drefniadau ffranseis â sefydliad addysg uwch yn bennaf, er bod CCAUC yn cyllido rhai yn uniongyrchol.

Y Cynllun

Anelir y Cynllun Iaith Gymraeg at y cyhoedd yn gyffredinol ac at y sefydliadau AU a cholegau AB y mae CCAUC yn rhoi cyllid iddynt.

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ddwy brif agwedd:

- 1) gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru
- 2) rôl CCAUC fel y corff sy'n cyllido addysgu ac ymchwil yn y sector addysg uwch.

Felly mae'r Cynllun wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

1 Egwyddorion cyffredinol

Rhan 1 2 Ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg ei iaith

Y gwasanaethau a ddarperir gan CCAUC i'r cyhoedd yng Nghymru a'i wasanaethau cyffredinol i sefydliadau AU a cholegau AB.

3 Wyneb cyhoeddus CCAUC

Rhan 2 4 Addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Polisiâu a chynlluniau CCAUC i gefnogi cynnal a datblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector AU yng Nghymru.

Rhan 3 5 Gweithredu a monitro

1 Egwyddorion Cyffredinol

Cymeradwywyd y Cynllun gan CCAUC ac mae ganddo ein hawdurdod llawn. Ni fyddwn yn newid y Cynllun heb gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw.

Mae'r Cynllun yn gyson â Chynllun Cyhoeddiadau CCAUC a luniwyd o dan Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

1.1 Cynllunio: polisiau a chynlluniau newydd a diwygiedig

1.1.1 Bydd CCAUC yn sicrhau bod staff sy'n llunio neu'n diwygio polisi yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau CCAUC o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

1.1.2 Bydd CCAUC yn:

- asesu effaith unrhyw bolisiau a chynlluniau newydd neu ddiwygiedig wrth eu llunio;
- sicrhau bod polisiau a chynlluniau newydd neu ddiwygiedig:
 - yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ble bynnag y bo modd;
 - yn symud y corff yn nes at weithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle posibl; ac
 - yn gyson â'r Cynllun ac nac ydynt yn ei danseilio;
- sicrhau bod y mesurau yn y Cynllun yn cael eu cymhwyso at bolisiau a chynlluniau newydd neu ddiwygiedig pan weithredir hwy; ac yn
- ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynghylch cynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun.

1.1.3 Byddwn yn gweithredu'r ymrwymadau uchod drwy'r strwythurau a sefydlwyd ar gyfer rheoli a gweinyddu busnes CCAUC, ac ar gyfer datblygu polisi, megis cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, y Fforwm Polisi, y Cyngor Gwaith, a'r Cyngor. Bydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol i drefniadaeth fewnol CCAUC yn cymryd i ystyriaeth gyfrifoldebau o dan y Cynllun ar gyfer polisiau a chynlluniau newydd a diwygiedig.

1.1.4 Bydd yr holl bapurau sy'n cael eu cyflwyno i gyfarfodydd o'n Cyngor a'n Bwrdd Rheoli yn dangos bod CCAUC wedi ystyried goblygiadau'r polisi ar gyfer yr iaith Gymraeg a, lle bo'n briodol, wedi cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyd â'n Cynllun Cydraddoldeb

1.2 Darparu gwasanaethau

- 1.2.1 Gweithredwn bolisiau drwy'r sefydliadau AU a cholegau AB sy'n derbyn cyllid CCAUC. Cymhwysir polisiau a gweithgareddau ar raddfa Cymru gyfan fel rheol. Nid yw swyddogaethau CCAUC yn cynnwys darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd. O safbwynt ein cysylltiadau â'r cyhoedd yng Nghymru felly, ein nod yw darparu lefel gyson o wasanaeth a fydd yn galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r iaith sy'n well ganddynt yn eu hymwneud â ni.
- 1.2.2 Mae'r mesurau penodol a fydd yn galluogi CCAUC i ddarparu'r gwasanaethau i'r cyhoedd a nodir yn y Cynllun hwn ac i weithredu ein polisiau ar ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg mewn AU yn cael eu disgrifio, fel y bo'n briodol, yn yr adrannau isod, yn enwedig yn Rhan 3: *Gweithredu a Monitro*. Rhoddir canllawiau i'r holl staff ar eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun a darperir cyngor ychwanegol fel y bo angen gan uwch reolwyr neu'r Swyddog Cyfathrebu (y Swyddog Cynllun Iaith Gymraeg dynodedig ar gyfer y Cynllun). Bydd aelodau newydd o'r staff yn dysgu am Gynllun Iaith Gymraeg CCAUC yn ystod y broses sefydlu. Bydd gwasanaethau cyfieithu allanol ar gael i'r staff. Bydd timau polisi o fewn CCAUC, yn enwedig y Tîm Strategaeth, Dysgu a Chyllido, yn datblygu'r polisiau a nodir yn Rhan 2 o'r Cynllun.

Gweithio mewn partneriaeth

- 1.2.3 Bydd CCAUC yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau, asiantaethau a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Lle y mae gweithgareddau'r bartneriaeth yn cynnwys gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru neu gysylltu ag ef, bydd CCAUC yn ceisio sicrhau bod yr egwyddor o driniaeth gyfartal i'r ieithoedd Gymraeg a Saesneg yn cael ei chymhwyso a bod ein rôl ein hun mewn partneriaethau o'r fath yn cydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg.
- 1.2.4 Mae CCAUC yn gweithio gyda nifer o gyrff addysg uwch yn y DU sy'n perthyn i'r sector. O fewn cwmpas eu cylchoedd gwaith, bydd CCAUC yn eu hannog i gymryd i ystyriaeth faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn eu gweithgareddau. Lle'r ydym yn bartneriaid mewn cytundeb ar gyfer prosiectau neilltuol, byddwn yn pennu unrhyw ofynion iaith Gymraeg sy'n briodol i'r prosiect dan sylw.
- 1.2.5 Mae'r polisiau a nodir yn Rhan 2 o'r Cynllun yn rhan bwysig o'r cyfraniad y mae CCAUC yn ei wneud at hybu a chynnal addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.3 Safonau gwasanaeth

- 1.3.1 Mae CCAUC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â'r egwyddor o drin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal.
- 1.3.2 Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei nodi'n glir yn Adroddiad Blynyddol, Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Gweithredol, a Strategaeth Cyfathrebiadau CCAUC, mewn hysbysebion swydd, ar wefan CCAUC ac mewn dogfennau eraill, fel y bo'n briodol.
- 1.3.3 Bydd safonau gwasanaeth a threfn gwyno CCAUC yn cael eu cymhwyso'n gyfartal at wasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd ein safonau gwasanaeth yn gyson â'n Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn galluogi'r cyhoedd i ymdrin â CCAUC yn yr iaith o'u dewis. Wrth asesu a mesur y safonau ac effeithiolrwydd gwasanaeth CCAUC i'r cyhoedd yn y Gymraeg, byddwn yn defnyddio'r un dangosyddion perfformiad yn union â'r rheiny a ddefnyddir mewn perthynas â gwasanaethau yn y Saesneg.
- 1.3.4 Bydd y modd y gweithredwn ein safonau gwasanaeth a'n trefn gwyno yn cael ei fonitro fel rhan o'n trefn monitro perfformiad arferol. Byddwn yn adolygu priodoldeb ein safonau gwasanaeth a'n trefn gwyno, gan gynnwys mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn y Gymraeg i'r cyhoedd, o bryd i'w gilydd. Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am ein gwasanaethau iaith Gymraeg drwy gyfrwng ein harolwg allanol o randdeiliaid a phartneriaid. Bydd yr holl wybodaeth hon yn cyfrannu at fonitro'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ei gyfanrwydd.
- 1.3.5 Yn unol â'n Cynllun Cydraddoldeb, byddwn yn darparu dogfennau Cymraeg mewn gwahanol fformatau, fel y bo'n briodol a phan wneir cais.

Rhan 1

2 Ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg ei iaith

Yn yr adran hon disgrifir y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd Cymraeg ei iaith yng Nghymru a'r gwasanaethau cyffredinol i sefydliadau AU a cholegau AB. Disgrifir polisiau a chynlluniau CCAUC i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg uwch yng Nghymru yn Rhan 2.

2.1 Gohebiaeth ysgrifenedig

- 2.1.1 Mae CCAUC yn croesawu e-hebiaeth, llythyrau a gohebiaeth ysgrifenedig arall yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 2.1.2 Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn cael ei hateb yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol. Bydd llythyrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ateb llofnodedig yn y Gymraeg.
- 2.1.3 Bydd gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd neu fusnes yng Nghymru yn cael ei chychwyn yn yr iaith sy'n well gan y derbynnydd os yw'n hysbys. Anfonir gohebiaeth yn y Gymraeg hefyd yn dilyn cyfathrebu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn y Gymraeg. Os na wyddys pa iaith sy'n well gan y derbynnydd, anfonir gohebiaeth ddwyieithog. Mewn rhai achosion, lle y byddai aros am gyfieithiad yn anafanteisiol i'r derbynnydd, gall llythyrau neu e-hebiaeth gael eu hanfon yn y Saesneg gyda neges safonol bod croeso i'r derbynnydd ateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd gohebiaeth wedi hynny yn newis iaith y derbynnydd.
- 2.1.4 Bydd CCAUC yn anfon llythyrau neu hysbysiadau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 2.1.5 Bydd pob gohebiaeth e-bost gan CCAUC yn cynnwys troednodyn dwyieithog yn dweud bod croeso i'r derbynnydd ymateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd unrhyw atebion wedyn gan CCAUC yn iaith yr ymateb i CCAUC.
- 2.1.6 Os derbynnir e-bost yn y Gymraeg gan staff nad ydynt yn gallu neu'n hyderus i ateb yn y Gymraeg, ac oes angen cyfieithiad o'r herwydd, gwneir pob ymdrech i sicrhau nad yw'r amserau ymateb yn fwy nag ar gyfer e-bost a anfonir yn Saesneg. Os nad yw'n ymarferol i drefnu cyfieithiad, er enghraifft mewn argyfwng, bydd yn dderbyniol i CCAUC anfon neges Saesneg yn unig gydag ymddiheuriad. Bydd CCAUC yn cofnodi'r esboniad ar gyfer dogfennau monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg a lunnir yn y dyfodol.
- 2.1.7 Bydd ceisiadau am wybodaeth gan gyrff neu aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir o dan God Ymarfer CCAUC ar Hawl y Cyhoedd i Weld Gwybodaeth, yn derbyn llythyr eglurhaol yn yr iaith sy'n well gan yr ymholwr. Bydd copïau o ddogfennau neu wybodaeth a geisir yn cael eu darparu yn eu ffurf bresennol, boed yn y Saesneg, y Gymraeg neu'n ddwyieithog (gweler hefyd 3.3.5 i 3.3.7 isod).

2.1.8 Ni fydd yr ymrwymiad i ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi cyn ymateb.

- Mae gan CCAUC gontractau gyda chyfieithwyr allanol ac mae'r holl staff wedi cael gwybod sut i gyrchu'r gwasanaethau hyn.
- Mae staff Cymraeg ar gael fel rheol i roi cyngor ar gynnwys a dderbynnir yn y Gymraeg; fel arall gall gohebiaeth gael ei hanfon yn uniongyrchol i gyfieithwyr allanol fel y gellir paratoi ateb priodol.
- Mae CCAUC yn prynu ac yn diweddarau meddalwedd Cymraeg yn ôl y gofyn i ddarparu gwiriwr sillafu Cymraeg. Mae geiriaduron a chyfeirlyfrau ar gael i'r staff hefyd yn ôl y gofyn a rhoddir gwybod i staff am adnoddau ar y we.

2.1.9 Os bydd yn derbyn cais, bydd CCAUC yn paratoi ac yn darparu copïau sain o ddogfennau sydd ar gael yn y Gymraeg.

2.2 Cyfathrebu dros y ffôn

2.2.1 Mae CCAUC yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2.2.2 Bydd galwadau i switsfwrdd CCAUC yn cael eu hateb â chyfarchiad dwyieithog.

2.2.3 Bydd galwadau yn y Gymraeg i'r switsfwrdd yn cael eu hateb yn y Gymraeg *naill ai* gan weithredwr y switsfwrdd neu drwy *drosoglwyddo'r* alwad i aelod Cymraeg o'r staff. Os nad yw siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd, byddwn yn: i) gwneud trefniadau i siaradwr Cymraeg ffonio'n ôl mor fuan â phosibl; neu ii) rhoi'r dewis i'r sawl sy'n ffonio barhau â'r alwad yn y Saesneg os yw'n dymuno; neu iii) cynghori'r sawl sy'n ffonio i ysgrifennu at CCAUC yn y Gymraeg a derbyn ymateb ysgrifenedig yn y Gymraeg. Bydd aelodau di-Gymraeg o'r staff sy'n derbyn galwadau yn uniongyrchol yn y Gymraeg yn dilyn trefn gyffelyb.

2.2.4 Mae gwasanaeth post llais prif switsfwrdd CCAUC yn cynnwys neges ddwyieithog, a chroesewir negeseuon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2.2.5 Wrth benodi gweithredwyr switsfwrdd yn y dyfodol, bydd yn bolisi gan CCAUC i recriwtio siaradwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r swyddi neu, os nad yw hyn yn bosibl, i ddarparu hyfforddiant priodol i alluogi gweithredwyr switsfwrdd i ymdrin ag ymholiadau sylfaenol yn y Gymraeg cyn trosglwyddo'r alwad i aelod Cymraeg o'r staff.

2.2.6 Mae siaradwyr Cymraeg yn CCAUC sy'n gallu ymdrin â galwadau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u nodi ar y llyfr ffôn mewnol, sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, ac sydd ar gael i'r holl staff.

2.3 Cyfarfodydd cyhoeddus

- 2.3.1 Bydd croeso i'r rheiny sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, megis cyfarfod cyhoeddus blynyddol CCAUC, gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus lle cadarnheir y rheiny sy'n mynychu ymlaen llaw, bydd CCAUC yn darganfod pa iaith sy'n well gan bob unigolyn cyn y digwyddiad er mwyn penderfynu a oes angen trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.
- 2.3.2 Bydd seminarau a chynadleddau a drefnir gan CCAUC nad ydynt ar agor i'r cyhoedd, ond sydd ar gyfer cynrychiolwyr gwadd o'r sector AU, yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg fel rheol. Fodd bynnag, bydd y staff yn gwneud penderfyniad fesul digwyddiad, dan arweiniad uwch reolwyr, ynghylch a ddylid cynnal digwyddiad penodol yn ddwyieithog, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ar sail pwnc a natur y digwyddiad a'r gynulleidfa debygol. Os penderfynwn y dylai fod cyfle i gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yna bydd ein staff yn darganfod pa iaith yr hoffai aelodau'r gynulleidfa ei defnyddio ymlaen llaw. Disgwylir y bydd pob digwyddiad o'r fath sy'n ymwneud â *darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg: Rhan 2* yn cael ei gynnal yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 2.3.3 Bydd aelodau Cymraeg o'r staff yn bresennol ym mhob prif ddigwyddiad i groesawu'r cyhoedd ac ymdrin ag unrhyw ymholiadau. Gwisgant fathodynau fel bod modd eu hadnabod.

2.4 Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd

- 2.4.1 Mae croeso i aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld â swyddfeydd CCAUC wneud ymholiadau cyffredinol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Arddangosir hysbysiad dwyieithog yn y dderbynfa i'w gwneud hi'n glir i ymwelwyr y gallant ymdrin â'r corff yn y naill iaith neu'r llall. Os nad yw croesawydd dwyieithog ar gael, gwneir ymdrechion i sicrhau bod aelod Cymraeg o'r staff yn siarad â'r ymwelydd wyneb yn wyneb neu dros y ffôn i ymdrin â'r ymholiad cyffredinol dechreuol.
- 2.4.2 Trefnwn i aelod Cymraeg o staff CCAUC ymdrin ag unrhyw ymholiadau wyneb yn wyneb ar faterion mwy penodol pan fydd aelod o'r cyhoedd yn rhoi digon o rybudd o'i fwriad i ymweld. Ond gall fod achosion pan nad yw hyn yn bosibl oherwydd natur dechnegol neu arbenigol yr ymholiad. Yn yr achosion hyn, gwahoddir yr ymholwr i ysgrifennu i CCAUC fel y gall roi ateb ystyriol yn y Gymraeg. Neu gellir gwneud apwyntiad a threfnu i gyfieithydd fod yn bresennol.
- 2.4.3 Os trefnir cyfarfod ag aelod(au) o'r cyhoedd, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy fideo-gynadledda, bydd croeso iddynt gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg ar yr amod bod digon o rybudd yn cael ei roi fel y gellir darganfod pa iaith yr hoffent ei siarad a threfnu cyfleusterau cyfieithu os oes angen.

3 Wyneb cyhoeddus CCAUC

3.1 Hunaniaeth gorfforaethol

3.1.1 Mae CCAUC wedi ymrwymo i hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Mynegir hyn drwy enw, cyfeiriad a logo CCAUC a gwybodaeth safonol arall sy'n ymddangos ar:

- bapur ysgrifennu swyddogol, gan gynnwys papur â phennawd, papur ffacs, slipliau cyfarchion, a deunyddiau, nwyddau a chyhoeddiadau swyddogol eraill
- arwyddion mewnol ac allanol ar adeiladau CCAUC, neu arwyddion CCAUC mewn lleoliadau eraill
- hysbysebion
- gwefan CCAUC, a
- baneri, arddangosiadau ac arddangosfeydd CCAUC.

3.2 Arwyddion

3.2.1 Mae arwyddion allanol CCAUC, a'i arwyddion mewn mannau y gall ymwelwyr neu'r cyhoedd fynd iddynt, yn ddwyieithog. Mae hyn yn wir hefyd am unrhyw arwyddion CCAUC mewn lleoliadau cyhoeddus eraill.

3.2.2 Lle y mae arwyddion a hysbysiadau swyddogol a ddarperir gan eraill yn cael eu defnyddio yn swyddfeydd CCAUC er budd y cyhoedd, bydd CCAUC yn sicrhau y ceir ac y defnyddir fersiynau dwyieithog.

3.2.3 Bydd arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg, a'r testun yn y ddwy iaith ar arwyddion dwyieithog, yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

3.2.4 Bydd cywirdeb arwyddion dwyieithog/Cymraeg yn cael ei wirio gan gyfieithydd neu siaradwr Cymraeg cymwys arall cyn iddynt gael eu gosod.

3.3 Deunyddiau sy'n cael eu cyhoeddi a'u hargraffu

3.3.1 Ar hyn o bryd mae CCAUC yn cyhoeddi'r cyhoeddiadau blynyddol canlynol yn ddwyieithog ar ei wefan:

Adroddiad Blynyddol
Strategaeth Gorfforaethol
Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynyddol
Canlyniadau cyllido: Dyraniadau
Gwybodaeth ystadegol am hyfforddiant cychwynnol athrawon

Mae'r canlynol ar gael yn ddwyieithog hefyd:
Cynllun Cyhoeddiadau

Cynllun Cydraddoldeb CCAUC
Cyfraddau Cyfranogiad ar gyfer myfyrwyr Cymreig mewn addysg uwch o fewn y DU

Bydd CCAUC yn darparu crynodebau gweithredol Cymraeg o adroddiadau Saesneg, lle y bo'n ymarferol, a all gynnwys:

Astudiaethau ystadegol arbenigol
Adroddiadau ac ymchwil cyhoeddedig a gomisiynwyd gan CCAUC

Gall gwybodaeth arall, nad yw o bosibl ar gael fel cyhoeddiad traddodiadol, fod ar gael fel cynnwys dwyieithog ar wefan CCAUC.

- 3.3.2 Pan gyhoeddir deunydd yn ddwyieithog, bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen yn hytrach nag fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, oni bai bod hyn yn anymarferol oherwydd eu maint.
- 3.3.3 Os oes angen cyhoeddi dogfennau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, cyhoeddir y ddau fersiwn yr un pryd, cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hygyrch. Bydd pob un yn cynnwys neges bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall. Os bydd CCAUC yn cynhyrchu dogfen fawr yn Saesneg ar gyfer cynulleidfa arbenigol, neu os bydd CCAUC yn rhoi contract i gwmni arall i gynhyrchu darn o ymchwil neu adroddiad yn Saesneg, bydd CCAUC yn ymdrechu i ddarparu crynodeb gweithredol neu gyflwyniad yn y Gymraeg.
- 3.3.4 Os cyhoeddir dogfen gyda phris arni, ni fydd pris y fersiwn Cymraeg yn fwy na phris y fersiwn Saesneg, ac ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phe bai wedi cael ei chyhoeddi fel dogfen mewn un iaith.
- 3.3.5 Bydd dogfennau'n ymwneud â busnes mewnol CCAUC, neu sydd â chylchrediad cyfyngedig, ond sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyhoeddiadau CCAUC o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2002, ar gael yn yr iaith yr ysgrifennwyd hwy ynddi.
- 3.3.6 Mae'r gyfres swyddogol o gylchlythyrau a gynhyrchir gan CCAUC, ac unrhyw adroddiadau sy'n cyd-fynd â hwy, wedi'u cyfeirio at sefydliadau a chyrrff yn y sector AU ac weithiau colegau addysg bellach, nid at y cyhoedd yn gyffredinol. Fe'u cyfeirir yn benodol at bennaethiaid y sefydliadau dan sylw. Bydd staff CCAUC, gydag arweiniad uwch reolwyr a'r swyddog dynodedig ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg, yn ystyried a ddylai dogfennau penodol, ar sail y pwnc a'r staff yn y sefydliadau a fydd yn gyfrifol am ymdrin â hwy, gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Bydd pob cylchlythyr ac adroddiad yn ymwneud â darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn Rhan 2 (gan gynnwys HCA cyfrwng Cymraeg) yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog.
- 3.3.7 Rydym wedi ymrwmo i fod yn agored ynghylch polisiau a gweithgareddau CCAUC a byddwn yn sicrhau bod llawer o ddogfennau ar gael i gynulleidfa ehangach yn yr iaith/ieithoedd gwreiddiol drwy eu rhoi ar ein gwefan. Bydd gan lawer o ddogfennau sydd ar gael yn Saesneg dudalennau gwe

cysylltiedig neu eglurhaol yn y Gymraeg. Nodir ein polisiau a'n trefniadau mewn perthynas â chyhoeddiadau yng Nghynllun Cyhoeddiadau CCAUC.

3.3.8 Bydd deunyddiau eraill sydd â dosbarthiad eang a chyffredinol, megis posteri a thafleuni, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Bydd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Wrth ddsbarthu deunyddiau o'r fath – neu ddogfennau CCAUC eraill sydd ar gael yn ddwyieithog – yn bersonol (er enghraifft, mewn arddangosfa neu gyfarfod cyhoeddus), bydd cynrychiolwyr CCAUC yn cynnig fersiynau dwyieithog neu fersiynau Cymraeg a Saesneg.

3.3.9 Bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr yn cael cyfarwyddyd ysgrifenedig ar ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog.

3.4 Gwefan CCAUC

3.4.1 Mae tudalennau gwe CCAUC ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a gellir eu cyrchu drwy www.hefcw.ac.uk. Mae rhagdudalen y wefan yn caniatáu i ymwelwyr ei chychu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac ar bob tudalen mae modd newid o'r naill iaith i'r llall.

3.4.2 Fel rhan o'n Cynllun Cyhoeddiadau, fel y nodwyd uchod, byddwn yn trefnu bod dogfennau a gyfeiriwyd i ddechrau at gynulleidfa gyfyngedig ar gael ar raddfa ehangach. Mae'r un meini prawf yn cael eu cymhwyso at ddogfennau a roddir ar y wefan ag at ddogfennau sy'n cael eu hargraffu. Bydd dogfennau a roddir ar y wefan yn yr iaith/ieithoedd gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys dogfennau a gyfeiriwyd yn wreiddiol at benaethiaid sefydliadau AU a cholegau AB, a dogfennau'n ymwneud â busnes mewnol CCAUC, neu a gynhyrchwyd at ddibenion mewnol, a ddarperir fel rhan o'n Cynllun Cyhoeddiadau. Bydd dogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar y wefan.

3.4.3 Caiff y tudalennau Cymraeg a Saesneg ar wefan CCAUC eu diweddarau'r un pryd i sicrhau cydraddoldeb rhwng y cynnwys Cymraeg a Saesneg.

3.5 Ffurflenni a deunyddiau eglurhaol cysylltiedig

3.5.1 Nid yw CCAUC yn cynhyrchu llawer o ffurflenni a deunyddiau eglurhaol cysylltiedig at ddefnydd cyhoeddus. Mae'r canlynol ar gael yn ddwyieithog. Mewn rhai achosion, lle gwyddys pa iaith sy'n well gan y derbynnydd, byddant mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

- Y rhannau o sieciau a argreffir ymlaen llaw
- Ffurflenni cais am swyddi
- Gwybodaeth a anfonir at ymgeiswyr mewn perthynas â swyddi gwag
- Ffurflenni hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth.

Mae ffurflenni archeb brynu a hysbysiadau o dâl a anfonir yn electronig yn ddwyieithog.

- 3.5.2 Bydd penderfyniadau ynghylch a fydd ffurflenni eraill yn ddwyieithog neu mewn un iaith yn dibynnu ar natur y ffurflen, pa mor aml y'i defnyddir, a yw'r ffurflen ar gael i'r cyhoedd, a faint o siaradwyr Cymraeg a fydd yn ei defnyddio.

3.6 Datganiadau i'r wasg

- 3.6.1 Cyhoeddwn ddatganiadau i'r wasg yn ddwyieithog.

3.7 Cysylltiadau cyhoeddus a Marchnata

- 3.7.1 Bydd deunydd cyhoedduswydd CCAUC a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, oni wyddys y byddai'n well gan y gynulleidfa dan sylw ei gael mewn un iaith yn unig.
- 3.7.2 Nid yw CCAUC fel rheol yn cynnal ymgyrchoedd yn y wasg, ar y teledu neu ar y radio nac ymgyrchoedd hysbysebu, marchnata neu gyhoedduswydd eraill yng Nghymru. Os gwneir hyn, byddant yn cael eu cynnal yn y Gymraeg a'r Saesneg (neu, o bosibl, yn y Gymraeg yn unig os dyma'r iaith sydd orau gan y gynulleidfa dan sylw). Ymdrinnir â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Rhoddir mecanweithiau yn eu lle fel y gall pobl ymateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 3.7.3 Bydd arolygon cyhoeddus, arolygon rhanddeiliaid mawr, ac asesiadau effaith cydraddoldeb llawn yng Nghymru yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.
- 3.7.4 Bydd stondinau arddangos a gwybodaeth gyhoeddus CCAUC yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd unrhyw daflenni sydd ar gael ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu harddangos gyda'i gilydd a chynigir dewis i'r derbynydd.

3.8 Hysbysiadau swyddogol, Hysbysiadau cyhoeddus a Hysbysebion recriwtio staff

- 3.8.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg a dangosir y ddau fersiwn gyda'i gilydd. Byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- 3.8.2 Mae'r cyhoeddiadau y mae CCAUC yn eu defnyddio ar gyfer hysbysebu swyddi yn amrywio yn ôl natur y swydd. Mae pob hysbyseb ar gyfer swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru ac yn y Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Os caiff hysbyseb ei rhoi mewn papur sy'n cylchredeg yn bennaf yn y DU ar gyfer swydd lle y mae rhugledd yn y Gymraeg yn hanfodol, bydd yr hysbyseb yn ddwyieithog. Hysbysebir swyddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefannau CCAUC a'r Ganolfan Byd Gwaith.

3.8.3 Bydd pob hysbyseb staff (boed Cymraeg yn unig, Saesneg yn unig neu ddwyieithog) yn cynnwys datganiad dwyieithog ar ymrwymiad CCAUC i ddwyieithrwydd sy'n croesawu ymatebion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

4 Addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Mae'r rhan hon o Gynllun Iaith Gymraeg CCAUC yn cyflwyno'r cyd-destun ar gyfer ein polisiau ar ddwyieithrwydd, yr iaith Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch. Mae'n disgrifio datblygiadau diweddar sydd wedi arwain at y sefyllfa bresennol ac yn nodi'r hyn y bwriedir ei wneud yn y dyfodol.

4.1 Cyd-destun polisi

- 4.1.1 Cydnabyddwn y rhan bwysig a chwaraeir gan y sector addysg uwch mewn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog, a meithrin gallu ieithyddol fel y gellir cyflawni darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sicrhau triniaeth gyfartal i'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg wrth gynnal busnes cyhoeddus:
- Mae adrannau Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yng Nghymru yn darparu'r sylfeini academaidd, o ran ysgolheictod ac ymchwil, sy'n hanfodol i fywiogrwydd a datblygiad yr iaith. Maent hwy hefyd yn cynhyrchu graddedigion sy'n gallu gweithio yn yr iaith Gymraeg ar lefel uchel.
 - Bydd y Ganolfan dros Ymchwil i Theori ac Ymarfer Dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor, sy'n cael ei chyd-gyllido gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd o 2007, yn cyfrannu at ddeall a datblygu dwyieithrwydd yng Nghymru a'r DU ac mewn cyd-destun rhyngwladol.
 - Mae ymchwil ac ysgolheictod mewn disgyblaethau eraill ar faterion yn ymwneud â Chymru, yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ychwanegu at y gronfa o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol, diwylliannol, addysgol ac economaidd Cymru.
 - Mae'r cyfle i gymryd pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch yn bwysig o ran galluogi myfyrwyr i astudio yn yr iaith o'u dewis, estyn eu dwyieithrwydd, cynyddu eu cyfleoedd gyrfa, a darparu llwybrau dilyniant o'r ysgol, addysg bellach neu addysg oedolion a dysgu yn y gwaith.
 - Mae addysg uwch cyfrwng Cymraeg hefyd yn allweddol o ran cwrdd ag anghenion yr economi, cymunedau, a'r gyfundrefn addysg ehangach am raddedigion ac ôl-raddedigion dwyieithog mewn amrywiaeth o feysydd pwnc a phroffesiynau, sy'n gwasanaethu'r sectorau cyhoeddus a phreifat.
 - Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yn cyfrannu at ddatblygu a lledaenu terminoleg ar draws ystod eang o feysydd pwnc.
 - Mae sefydliadau addysg uwch (SAUau) Cymru yn darparu hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol cynradd ac uwchradd a sectorau addysg eraill. Mae hyn yn cynnwys athrawon ar gyfer y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ogystal ag ar gyfer dysgu Cymraeg i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Hefyd darparant

ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd megis addysg Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Ieuencid.

- Mae sefydliadau addysg uwch yn arwain pump o'r chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â darparu cyfleoedd pellach drwy ddarpariaeth dysgu gydol oes.

4.1.2 *Ymgeisio'n Uwch*: Roedd cryfhau darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn un o'r themâu yn *Ymgeisio'n Uwch: Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu*, strategaeth gychwynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yng Nghymru hyd 2010 a gyhoeddwyd yn 2002.

4.1.3 *Bwrdd Cynllunio Coleg Ffederal*: Nododd y cytundeb *Cymru'n Un* (Mehefin 2007), sy'n sail i raglen bresennol y llywodraeth: "Byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Addysg uwch cyfrwng Cymraeg – y Coleg Ffederal – er mwyn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion".¹ Ym mis Gorffennaf 2008, cyhoeddodd y Gweinidog y byddid yn sefydlu Bwrdd Cynllunio Coleg Ffederal, wedi'i gadeirio gan yr Athro Robin Williams, cyn Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe. Cafodd adroddiad yr Athro Williams, a oedd yn argymhell ffordd ymlaen, ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2009.²

4.1.4 Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn nodi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda rhanddeiliaid a CCAUC, yn ei gwneud hi'n bosibl i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth ehangach o raglenni a lleoliadau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gweithredu i sefydlu'r Coleg Ffederal yn unol â'r argymhellion yn adroddiad yr Athro Williams.

4.1.5 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* ym mis Ebrill 2010. Mae'r strategaeth yn cydnabod y rhan a chwaraeir gan y Coleg Ffederal wrth ddatblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae sawl agwedd ar y strategaeth ehangach yn berthnasol i'r sector addysg uwch, gan gynnwys cyfrannu at wella llwybrau dilyniant i addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

4.1.6 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* ar gyfer ymgynghori ym mis Mai 2009. Roedd y ddogfen yn cynnwys nifer o weithredoedd arfaethedig sy'n berthnasol i'r sector addysg uwch, ac yn cydnabod y byddai casgliadau'r adroddiad ar y Coleg Ffederal yn dylanwadu ar ddatblygiadau yn y dyfodol ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Ar ôl cyhoeddi'r strategaeth derfynol, bydd angen i CCAUC ei chymryd i ystyriaeth yn ei waith yn y dyfodol.

4.1.6 *Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)*: Mae HCA yn chwarae rhan allweddol mewn cyflenwi athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg yng Nghymru ac mae CCAUC yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddatblygu ei bolisiâu ar gyfer HCA. Mae gan CCAUC gyfrifoldebau statudol penodol ar gyfer HCA yng Nghymru. Mae ein rôl yn cynnwys: achredu sefydliadau addysg uwch fel darparwyr HCA; dyrannu targedau recriwtio i ddarparwyr ar

¹ Cymru'n Un – Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru. Cytundeb rhwng y Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol – 27 Mehefin 2007

² <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/colegffederal/?lang=en>

sail targedau sector Llywodraeth Cynulliad Cymru; a gweithio gydag Estyn i sicrhau bod darparwyr HCA yn parhau i fodloni'r gofynion a safonau disgwyliedig. Daeth adolygiad o HCA a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y cyflwynwyd ei adroddiad yn 2006, i'r casgliad fod gormod o athrawon yn cael eu hyfforddi yng Nghymru. Buom yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch ers 2006 i ailgyflunio'r sector HCA fel y bydd yn gallu cwrdd yn well ag anghenion Cymru ar gyfer athrawon newydd eu hyfforddi yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy ffurfio tair Canolfan Addysg Athrawon wedi'u seilio ar bartneriaethau o sefydliadau addysg uwch yn Ne-Ddwyrain Cymru, De-Orllewin Cymru, a Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- 4.1.7 *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru (2008)*: Mae strategaeth a chynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cwmpasu sgiliau iaith Gymraeg. Bydd y sector addysg uwch yn chwarae rhan allweddol mewn gwella sgiliau lefel uwch yng Nghymru, gan gynnwys sgiliau iaith Gymraeg a chyfrwng Gymraeg a dwyieithog.
- 4.1.8 Y dirwasgiad economaidd yw'r ffactor sy'n dylanwadu fwyaf ar y sector addysg uwch. Gallwn ddisgwyl y bydd pwysau cynyddol ar y grant creiddiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a fydd ar gael i CCAUC i'w ddyrannu i'r sector yn ystod yr ychydig o flynyddoedd nesaf o leiaf. Ond byddwn yn annog y SAUau i ymateb yn gadarnhaol i'r sefyllfa economaidd, drwy roi cymorth i unigolion, cymunedau a busnesau ar draws Cymru i wella sgiliau, ac yn eu rolau fel cyflogwyr lleol a rhanbarthol o bwys.

4.2 Datblygiadau diweddar a'r sefyllfa bresennol

- 4.2.1 Rhoddodd y pwyslais yn *Ymgeisio'n Uwch* ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a'r disgwyliadau gwleidyddol a oedd yn gysylltiedig â hi, hwb i ddatblygiadau o bwys ym maes darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg.
- 4.2.2 Yn 2003 sefydlodd CCAUC Grŵp Llywio Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg wedi'i gadeirio gan Andrew Green, Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a gyfarfu rhwng mis Tachwedd 2003 a mis Tachwedd 2006. Paratôdd y Grŵp strategaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gyflwynwyd gan CCAUC i'r Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Hydref 2004.
- 4.2.3 Rhoddodd y Gweinidog ei sêl bendith i CCAUC i ddarparu cyllid i weithredu gwahanol agweddau ar y strategaeth. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Cynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion a Chynllun Cymrodoriaethau Addysgu i gynyddu'r nifer o staff academiaidd a fyddai'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Cafodd staff ac adnoddau'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, a sefydlwyd yn wreiddiol fel uned fach yn 2000, eu cryfhau hefyd i'w galluogi i gefnogi cyflwyno'r strategaeth.
- 4.2.4 Fel rhan o'r strategaeth, cafodd ymgynghorwyr annibynnol eu comisiynu i ymgymryd ag asesiad opsiynau o fodolau ar gyfer cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Model rhwydwaith, wedi'i gefnogi gan fframwaith strategol

cenedlaethol cryf a rôl ehangach i'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, oedd y model ffafriedig a argymhellwyd yn adroddiad yr ymgynghorwyr. Roedd cefnogaeth gyffredinol o fewn y sector AU i'r prif agweddau ar y model a gynigiwyd.

Y Fframwaith Strategol ar gyfer Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg a'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol

- 4.2.5 Ym mis Tachwedd 2006, cytunodd penaethiaid yr holl SAUau, drwy Addysg Uwch Cymru (AUC), y corff sy'n eu cynrychioli, i sefydlu fframwaith strategol i'r sector cyfan, gan gynnwys paratoi a chytuno ar gynllun datblygu cenedlaethol a chefnogi gwaith y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg (a ailenydd yn Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg). Roedd hwn yn ddatblygiad o bwys gan ei fod yn golygu bod y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn ymrwmo fel sector ar y lefel reoli uwch i gymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- 4.2.6 Darperir cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol gan y Grŵp Sector Addysg uwch Cyfrwng Cymraeg (GSAU CC), y mae ganddo gynrychiolwyr uwch o bob sefydliad. Drwy'r GSAU CC, mae'r sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ar lefel genedlaethol sut y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei datblygu a'i chyflwyno ar hyd a lled Cymru. Mae'r cynllun datblygu yn canolbwyntio ar y gwahanol feysydd sy'n effeithio ar gyflenwad a galw mewn addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig datblygu darpariaeth, marchnata, recriwtio myfyrwyr, a datblygu a recriwtio staff.
- 4.2.7 Mae staff ar draws y sefydliadau'n ymgymryd â gwaith datblygu drwy is-grwpiau a phaneli rhwydwaith sy'n gyfrifol am ystod o bynciau. Nid yw aelodau'n "staff cyfrwng Cymraeg" o anghenraid ond staff sy'n gallu dod ag arbenigedd mewn marchnata, datblygu staff ac e-ddysgu i hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach. Cedwir y fframwaith yn hyblyg i ymateb i anghenion datblygol. Er enghraifft, wrth i'r gwaith datblygu gynyddu, mae grŵp cydlynu o staff sy'n gyfrifol am weinyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau yn y sector wedi cael ei sefydlu ac mae cefnogaeth yn cael ei darparu ar gyfer staff cydlynu ychwanegol.
- 4.2.8 Ers mis Awst 2007, mae'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg wedi gweithredu o dan gonsortium o eiddo'r sector y mae'r holl SAUau yn aelodau ohono, ac mae Coleg Prifysgol y Drindod wedi bod yn gweithredu fel sefydliad cartref ar ran y sector. Mae gan y Ganolfan fwrdd rheoli sy'n darparu arweiniad ac sy'n goruchwyllo ei gweithrediadau. Mae rôl y Ganolfan wedi cael ei chryfhau a'i hail-ddiffinio fel bod ei gwaith yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar gefnogi gweithredu pob agwedd ar y cynllun datblygu cenedlaethol, dan gyfarwyddyd y GSAU CC, gan weithio'n agos â'r holl sefydliadau yn y sector. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch Mantais sydd â'r nod o godi diddordeb mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith darpar fyfyrwyr ac ysgogi galw amdani.
- 4.2.9 Gellir cael gwybodaeth bellach am bob agwedd ar y gwaith sy'n cael ei wneud o dan y cynllun datblygu cenedlaethol ar wefan y Ganolfan Addysg

Uwch Cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd (www.aucyfrwngcymraeg.ac.uk).

4.3 Datblygiadau yn y dyfodol

- 4.3.1 Yn ystod y cyfnod sy'n dod bydd CCAUC yn canolbwyntio'n bennaf ar weithio gyda'r sector a rhanddeiliaid eraill i sefydlu'r Coleg Ffederal. Rhan gyntaf y broses hon fu sefydlu'r Bwrdd Gweithredu Coleg Ffederal a chefnogi ei waith. Ond byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer y Fframwaith Strategol a'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol ac ar gyfer y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg yn y cyfamser. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd a chynnal momentwm ac er mwyn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y Coleg Ffederal a fydd yn adeiladu ar waith presennol y sector addysg uwch.

4.4 Rôl CCAUC

- 4.4.1 Gweithiwn yn agos â'r sector i sicrhau datblygiadau mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Adlewyrchir hyn mewn cyfeiriadau penodol at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y llythyrau cylch gwaith blynyddol a dderbyniwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i CCAUC roi cyngor ffurfiol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac iddo weithredu'n briodol ar ôl derbyn ymateb y Gweinidog i'r cyngor hwn. Buom yn chwarae rhan bwysig mewn datblygu'r fframwaith strategol a chynllun datblygu cenedlaethol presennol ac roedd gennym gynrychiolaeth ar y Bwrdd Gweithredu Coleg Ffederal a gadeiriwyd gan yr Athro Robin Williams.
- 4.4.2 O fewn y fframwaith strategol, mae'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, CCAUC ac AUC yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r GSAU CC, ac mae'r swyddogion dan sylw mewn cysylltiad rheolaidd â'i gilydd. Hefyd mae gan swyddogion CCAUC gynrychiolaeth ar is-grwpiau'r GSAU CC a Bwrdd Rheoli'r Ganolfan. Yn arbennig, mae swyddogion CCAUC yn gweithio'n agos â'r Ganolfan i gefnogi cynnydd yn gyffredinol ac yn arbennig mewn perthynas â gweithgaredd a gyllid gennym.
- 4.4.3 Fel y nodwyd uchod, bydd gan CCAUC rôl bwysig bellach yn y gwaith o sefydlu'r Coleg Ffederal.

Cyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- 4.4.4 Mae gan y cyllid a ddarparwn ddwy brif elfen: cyllid sy'n rhan o'r cyllid prif ffrwd rheolaidd ar gyfer addysgu a chyllid ychwanegol i gefnogi gweithredu'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol.
- 4.4.5 *Premiwm cyfrwng Cymraeg:* Darparwn gyllid prif ffrwd ar gyfer addysgu mewn addysg uwch ar sail credyd, gydag uned adnodd am bob gwerth credyd yn ôl y categori pwnc academiaidd y mae'r ddarpariaeth yn perthyn iddo. Y cyllid hwn yw craidd y grant addysg rheolaidd y mae sefydliadau'n ei dderbyn ac sy'n cyfrannu at yr addysgu, dysgu ac adnoddau, gwasanaethau

ac isadeiledd cysylltiedig sy'n creu profiad y myfyrwyr. Fel rhan o'r cyllid rheolaidd hwn, talwn breimiwm am gofrestrïadau ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg i gydnabod costau ychwanegol darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. (Ni chynhwysir modiwlau iaith a llenyddiaeth Gymraeg fel rheol.) I gyfrifo'r premiwm, defnyddir y data am gofrestrïadau cyfrwng Cymraeg y mae sefydliadau'n eu cofnodi ar eu ffurflenni Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU/HESA). Gall myfyrwyr fod yn cymryd modiwl cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg neu ran o fodiwl. Y nifer lleiaf o gredydau cyfrwng Cymraeg o fewn modiwl sydd eu hangen i fod yn gymwys ar gyfer y premiwm yw dau gredyd. Mae'r premiwm yn gyfwerth â 34% yn ychwanegol ar yr uned o gyllid ar gyfer pob credyd cymwys. Felly mae cyfanswm y cyllid premiwm a delir bob blwyddyn yn dibynnu ar nifer y cofrestrïadau cyfrwng Cymraeg a gofnodir. Y cyfanswm ar gyfer 2009/10 yw £1.4M.

- 4.4.6 *Y Cynllun Datblygu Cenedlaethol:* Mae'r cyllid sy'n cefnogi gweithredu'r cynllun datblygu cenedlaethol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n cynnwys cyllid yr ydym wedi'i ddarparu ers peth amser, sef cronfa ddatblygu a dyraniad sylfaenol i'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Yn sgil y cyngor y mae CCAUC wedi'i roi i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar wahanol adegau allweddol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i'r defnydd o gyfanswm o £5.18M o Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC rhwng 2004/05 a 2010/11, yn ogystal â £3M arall fel rhan o gyllid Cymru'n Un, ar gyfer y tair blynedd o 2008/09. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn darparu cyllid o oddeutu £2.79M yn 2009/10 ar gyfer gwaith datblygu a chydlynu ac ar gyfer staffio ac isadeiledd y Ganolfan.
- 4.4.7 Caiff y cyllid i gefnogi'r cynllun datblygu ei weinyddu drwy'r Ganolfan. Cytunir ar gynlluniau a thargedau ar gyfer defnyddio'r cyllid, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cyllid a monitro, gyda CCAUC ar ôl trafod â'r Ganolfan a'r GSAU CC. Cyflwynir adroddiad ar gynnydd gan y Ganolfan i bob cyfarfod o'r GSAU CC ac i'w bwrdd rheoli. Bydd hefyd yn cyflwyno adroddiadau monitro ffurfiol rheolaidd i CCAUC yn erbyn targedau a gweithredoedd i'w cyflawni y cytunwyd arnynt. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi CCAUC i sicrhau ei fod yn fodlon ar y cynnydd a wnaed, a'i fod yn chwarae rôl briodol a chefnogol, drwy waith ei staff a'i ddefnydd o gyllid, gan hyrwyddo'r fframwaith a'r cynllun datblygu.
- 4.4.8 Prif anfantais y trefniadau presennol yw bod y rhan fwyaf o'r cyllid yn dymor-byr. Tynnwyd sylw at hyn gan yr Athro Williams yn ei adroddiad ar y Coleg Ffederal ac felly mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud darpariaeth i CCAUC ddarparu cyllid rheolaidd ar gyfer y Coleg Ffederal.

Agweddau eraill ar rôl CCAUC

- 4.4.9 *Sicrhau ansawdd addysgu:* Mae fframwaith sicrhau ansawdd a safonau CCAUC ar gyfer darpariaeth addysg uwch yng Nghymru wedi'i seilio ar adolygiadau sefydliadol a wneir ar draws Cymru; adolygir pob sefydliad o leiaf unwaith o fewn cylch chwe blynedd. Ymgymerir â'r broses archwilio ar ran CCAUC gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA/QAA). Mae canllawiau'r ASA ar arfer effeithiol wrth arholi ac asesu

mewn iaith ar wahân i iaith yr addysgu wedi cael eu darparu. Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod amgylchiadau arbennig sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o ran sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg a'u cyfrifoldebau dros ddarparu cyfleoedd pryd bynnag y bo modd i asesu perfformiad myfyrwyr yn yr iaith Gymraeg ni waeth beth yw iaith yr addysgu/hyfforddi. Mae ein cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r ASA yn nodi ein disgwyliadau y bydd yr ASA, yn ei hymwneud â'r sector yng Nghymru, yn bodloni gofynion ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun a Chynlluniau'r sefydliadau addysg uwch a CCAUC, gan gynnwys sicrhau ei fod yn sefydlu ac yn cynnal gallu trefniadaethol priodol yn yr iaith Gymraeg.

- 4.4.10 *Asesu Ymchwil a Chyllido Ymchwil:* Mae pedwar corff cyllido addysg uwch y DU ar hyn o bryd yn datblygu trefniadau newydd ar gyfer asesu ymchwil. Bydd y trefniadau newydd hyn, a elwir yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, yn cymryd lle'r Ymarfer Asesu Ymchwil. Byddwn yn sicrhau y bydd y trefniadau newydd, fel yr Ymarfer Asesu Ymchwil, yn cynnwys darpariaeth ffurfiol briodol ar gyfer asesu gwaith a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gydnabod statws cyfartal yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yng Nghymru. Bydd hyn yn diogelu cadernid academiaidd ymchwil a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg drwy sicrhau y gellir ei farnu yn erbyn meini prawf ansawdd ar gyfer y DU gyfan. Bydd hyn yn galluogi'r sector i gefnogi'n hyderus staff academiaidd sy'n ymgymryd ag ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.4.11 Bydd y gwaith hwn, o fewn y meini prawf ar gyfer asesu a chyllido, yn cael ei gyllido drwy ddull cyllido ymchwil CCAUC ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i faterion iaith Gymraeg yr ymgwymerir ag ef mewn sefydliadau addysg uwch yn ogystal â gwaith y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd. Rhoddwn gymorth hefyd i Brifysgol Cymru ar gyfer Uned Geiriadur Cymru ac i Wasg Prifysgol Cymru.

4.5 Strategaeth Gorfforaethol CCAUC

- 4.5.1 Mae gennym strategaeth gorfforaethol dair blynedd sy'n disgrifio cenhadaeth a nodau CCAUC ac sy'n gweithredu yn yr amgylchedd polisi cyffredinol a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. (Gellir dod o hyd i'r strategaeth gorfforaethol fwyaf diweddar o dan "Cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau Corfforaethol" ar wefan CCAUC.)
- 4.5.2 Mae ein strategaeth gorfforaethol ddiweddaraf yn cyfeirio at rôl CCAUC mewn sefydlu'r Coleg Ffederal a pharhad ein cymorth ar gyfer y Cynllun Datblygu Cenedlaethol a'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg yn ystod y cyfnod pontio. Mae hefyd yn cynnwys gweithred yn ymwneud â chefnogi hyfforddiant cychwynnol athrawon cyfrwng Cymraeg.

4.6 Datblygu a gweithredu polisi o fewn CCAUC

- 4.6.1 Cyngor CCAUC sy'n gyfrifol yn y pen draw am bolisi ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd, sy'n cynghori'r Cyngor, yn ymdrin â darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ei gylch

gwaith. Y Prif Weithredwr, wedi'i gefnogi gan y Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, sy'n gyfrifol am sicrhau y gweithredir polisi. Y Pennaeth Strategaeth, Dysgu a Chyllid sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros arwain polisi a sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith. Bydd staff yn y tîm Strategaeth, Dysgu a Chyllid yn ymgynghori â chydweithwyr eraill yn CCAUC fel y bo'n briodol. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod polisi'n cael ei ddatblygu o fewn cyd-destun ehangach blaenoriaethau a pholisïau ar gyfer addysg uwch, gan gynnwys ailgyflunio a chydweithio, ehangu mynediad ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, a meithrin yr arfer gorau mewn perthynas â dysgu ac addysgu a phrofiad y myfyrwyr.

- 4.6.2 Mae ein strategaeth gorfforaethol yn adlewyrchu *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Mae'n cyfeirio at ran CCAUC mewn sefydlu'r Coleg Ffederal ac yn cynnwys mesur yn ymwneud â chynyddu nifer y myfyrwyr sy'n ymgymryd ag addysg uwch cyfrwng Cymraeg:

“Bydd nifer y myfyrwyr o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn codi o 4,667 yn 2008/09 i 5600 yn 2012/13.”

Cynllun Gweithredu 2009/10

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cwmpasu:

- cyllid prif ffrwd ar gyfer sefydliadau addysg uwch
- parhad y cymorth ar gyfer y Fframwaith Strategol a'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol ac ar gyfer y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg
- gweithredoedd cychwynnol i sefydlu'r Coleg Ffederal
- hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Mae'n cynnwys gweithredoedd sy'n rhan o gylchoedd blynyddol yn ogystal â gweithgareddau datblygu penodol.

Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn y meysydd hyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ein hadroddiad cydymffurfio blynyddol ac yn diweddarau'r cynllun bob blwyddyn i adlewyrchu gwaith sydd i ddod.

Mater	Amcan	Gweithred	Targedau / amserlenni
Cyllid prif ffrwd	1 Darparu cyllid ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol a darpariaeth newydd wrth iddi gael ei chyflwyno	1.1 Fel rhan o'r dyraniadau cyllid prif ffrwd ar gyfer addysgu, gwneud taliadau premiwm bob blwyddyn ar gyfer cofrestriadau ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	Cyhoeddi dyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod bob mis Mawrth, yng nghyhoeddiad y Cyngor ar ddyraniadau grant rheolaidd y sefydliadau
Fframwaith Strategol a Chynllun Datblygu Cenedlaethol	2 Cefnogi gweithredu'r cynllun datblygu cenedlaethol	2.1 Parhau â chymorth ariannol ar gyfer gweithredu'r cynllun datblygu cenedlaethol	Darparwyd peth cymorth ariannol drwy grant rheolaidd CCAUC ar gyfer addysgu. Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gymorth ariannol ychwanegol hyd fis Mawrth 2011.

Mater	Amcan		Gweithred		Targedau / amserlenni
			2.2	Cyfrannu, gyda'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg ac Addysg Uwch Cymru, at y gydysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (GSAU CC)	Cynnal cyfarfodydd y GSAU CC deirgwaith y flwyddyn
			2.3	Cyfrannu at waith is-grwpiau'r GSAU CC yn ôl y gofyn	Swyddogion CCAUC i fod yn aelodau o'r prif is-grwpiau ac i fynychu grwpiau eraill, e.e. grwpiau Gorchwyl a Gorffen, fel y bo'n briodol
			2.4	Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymreig er mwyn bwrw ymlaen â gwaith datblygu rhwng cyfarfodydd o'r GSAU CC	Cysylltu yn ôl y gofyn
Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg	3	Rhoi cymorth i'r Ganolfan i'w galluogi i gyfrannu at weithredu'r cynllun datblygu cenedlaethol	3.1	Parhau â chymorth ariannol i gyfrannu at staffio ac isadeiledd y Ganolfan	Mae cymorth ariannol, wedi'i ddarparu drwy grant rheolaidd CCAUC ar gyfer addysgu, yn ei le hyd fis Gorffennaf 2011. Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gymorth ariannol ychwanegol hyd fis Mawrth 2011.
			3.2	CCAUC i gael ei gynrychioli ar lefel swyddog ar Fwrdd Rheoli'r Ganolfan	Cynnal cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli deirgwaith y flwyddyn

Mater	Amcan		Gweithred		Targedau / amserlenni
			3.3	Monitro sut y mae'r cyllid a ddyrennir i'r Ganolfan ar gyfer y cynllun datblygu cenedlaethol a'i staffio a'i hisadeiledd yn cael ei ddefnyddio	Cynnal cyfarfodydd monitro ddwywaith y flwyddyn. Adroddiadau ffurfiol ar gynnydd i gael eu darparu gan y Ganolfan ddwywaith y flwyddyn
Coleg Ffederal	4	Gweithio gyda'r sector a rhanddeiliaid eraill i sefydlu'r Coleg Ffederal	4.1	Sefydlu'r Bwrdd Gweithredu ar gyfer y Coleg Ffederal a chefnogi ei waith	Gwaith ar sefydlu'r Coleg i gael ei wneud fel y gall y Coleg ddechrau gweithredu o 2011/12
Data perfformiad ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	5	Monitro perfformiad sefydliadau a'r sector mewn perthynas â chofrestriadau cyfrwng Cymraeg	5.1	Gofyn i sefydliadau gyflwyno gwybodaeth ar gynnydd fel rhan o gais y Cyngor am gynlluniau strategol sefydliadol	Dadansoddiad i gael ei gyflwyno i Gyngor CCAUC ym mis Hydref
	6	Darparu data ar gyfer y sector i'w helpu i gynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg	6.1	Darparu dadansoddiadau o ddata am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, a staff cyfrwng Cymraeg ar lefel y sector a'r sefydliad unigol	Anfon y dadansoddiadau i'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg a sefydliadau unigol ym mis Ebrill/Mai bob blwyddyn

Mater	Amcan		Gweithred		Targedau / amserlenni
Academi Addysg Uwch	7	Sicrhau bod yr Academi Addysg Uwch yn cyfrannu at ddatblygiadau cyfrwng Cymraeg fel bod y ddarpariaeth yn gallu elwa ar arfer gorau ac arloesedd mewn dysgu ac addysgu	7.1	Nodi yn llythyr grant blynyddol CCAUC i AUC yr hyn a ddisgwylir gan yr Academi wrth iddi weithio gyda'r sector yng Nghymru ac yn arbennig gyda'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg	Parhau â'r gwaith presennol. Monitro cynnydd mewn cyfarfodydd cyswllt a gynhelir bob tymor
Hyfforddiant cychwynnol athrawon	8	Cyfrannu at gwrdd â'r angen am athrawon iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg mewn ysgolion	8.1	Strategaethau hyfforddiant cychwynnol athrawon gan y Canolfannau Addysg Athrawon newydd i gynnwys cynlluniau a thargedau ar gyfer darpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg, gyda chymorth dyraniadau o'r Gronfa Strategaeth HCA	Darparwyr i adrodd ar gynnydd yn erbyn eu strategaethau ar gyfer 2009/10 hyd 2010/12 ac i ddiweddarau eu strategaethau bob blwyddyn drwy broses Datganiad Monitro Blynyddol CCAUC
			8.2	Yn dilyn cais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gweithio gyda'r sector i ystyried y posibilrwydd o gyflwyno tystysgrif cymhwysedd gyffredin ar gyfer myfyrwyr HCA cyfrwng Cymraeg	Cyflwynwyd yr adroddiad cychwynnol ar gynnydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2010. Ymgwymerir â gwaith datblygu pellach yn 2010/11

Mater	Amcan		Gweithred		Targedau / amserlenni
Ehangu mynediad	9	Cyfrannu at sicrhau bod y gweithdrefnau derbyn ar gyfer AU yn cymryd anghenion ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg i ystyriaeth	9.1	Parhau i weithio gyda Rhaglen Cefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyniadau (SPA) y DU a chydag UCAS i sicrhau bod datblygiadau polisi ac arfer yn cymryd anghenion ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg i ystyriaeth	Aelod o grŵp llywio SPA y DU (mae'n cyfarfod tua 4 gwaith y flwyddyn) ac o Grŵp Sefydlog Cymru UCAS. Bydd UCAS yn sefydlu grŵp polisi ym maes derbyn mewn partneriaeth â CCAUC ac Addysg Uwch Cymru er mwyn rhoi sylw i faterion iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg penodol

5.1 Staffio, datblygu staff a recriwtio staff

5.1.1 Mae CCAUC wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau bod ganddo ddigon o staff Cymraeg eu hiaith i'w alluogi i weithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg yn effeithiol.

Strategaeth Sgiliau Ieithyddol

5.1.2 Er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu darparu gwasanaethau CCAUC yn y Gymraeg i safon uchel, yn effeithiol ac yn effeithlon, rydym wedi mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'n proses cynllunio adnoddau dynol. Bydd y Strategaeth hon yn ein galluogi i gadw golwg ar anghenion ac adnoddau CCAUC o ran sgiliau ieithyddol, ac i gydlynu gweithgareddau hyfforddi a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun

5.1.3 Bydd CCAUC yn ymgymryd ag archwiliad blynyddol o'i wasanaethau a'i staff er mwyn nodi'n wrthrychol:

- y sefyllfaoedd lle y mae cysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru a natur y cysylltiad hwnnw
- y sefyllfaoedd lle y mae datblygiadau polisi yn ymwneud â materion iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch, a
- sgiliau dwyieithog y staff presennol ac i ba raddau y byddai gan staff ddi-ddordeb mewn dysgu neu uwchraddio eu medrau.

Mae'r archwiliad yn galluogi CCAUC i nodi'r swyddi hynny lle y mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu lle yr ystyrir nad oes angen y medr hwn. Mae'r archwiliad hefyd yn ein helpu i lunio ein rhaglen datblygu staff.

5.1.4 Bydd sgiliau staff newydd yn y Gymraeg yn cael eu gwerthuso fel rhan o'r broses sefydlu.

5.1.5 Bydd pob swydd newydd a phob swydd bresennol sy'n mynd yn wag yn cael ei hystyried yng nghyd-destun y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol. Wrth wneud hyn, bydd CCAUC yn ymwybodol o'r angen i fanteisio ar bob cyfle posibl i wella unrhyw wendidau mewn sgiliau Cymraeg a fydd yn effeithio ar y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor

5.1.6 Ar ôl dadansoddi'r archwiliad dechreuol, bydd CCAUC yn paratoi strategaeth datblygu a recriwtio staff, gyda gweithredoedd a thargedau tymor-byr a thymor-hwy priodol. Bydd hon yn cymryd i ystyriaeth y mesurau a nodir o dan *Datblygu staff isod*.

Datblygu staff

- 5.1.7 Bydd CCAUC yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith ei staff. Rhoddir anogaeth a chefnogaeth i bob aelod staff i ddysgu'r Gymraeg neu i wella ei gymhwysedd a'i hyder i siarad, darllen ac ysgrifennu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer staff ar lefel a fydd yn gwella safon eu Cymraeg fel y gallant wneud eu dyletswyddau yn effeithlon, a phenderfynir arno fel rheol yn dilyn archwiliad blynyddol o Sgiliau Iaith Gymraeg y staff. Rydym yn ystyried bod cefnogaeth o'r fath yn bwysig gan ei bod yn cynyddu ein gallu cyffredinol i weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg a meithrin diwylliant dwyieithog o fewn y corff a fydd yn cael ei adlewyrchu yn ei gysylltiadau â'r sector addysg uwch, rhanddeiliaid eraill, a'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd staff CCAUC sy'n dymuno gwneud hynny yn gallu ymateb i siaradwyr Cymraeg yn unol â'u sgiliau datblygol. Bydd hyn yn werthfawr mewn corff megis CCAUC lle y mae llawer o'r staff yn ymdrin â meysydd polisi arbenigol.
- 5.1.8 Bydd CCAUC hefyd yn asesu'r angen am hyfforddiant swydd-gysylltiedig i feithrin gallu siaradwyr Cymraeg, a dysgwyr Cymraeg wrth iddynt ddatblygu, i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.1.9 Bydd CCAUC yn
- blaenoriaethu anghenion hyfforddiant y staff er mwyn cwrdd â gofynion y Cynllun
 - cymryd i ystyriaeth anghenion hyfforddiant a ganfyddir yn ystod y broses sefydlu, ac wedyn fel rhan o'r drefn rheoli a datblygu perfformiad, er mwyn cynllunio cyrsiau datblygu iaith i staff yn unol â'u ceisiadau ac anghenion CCAUC
 - cefnogi neu drefnu hyfforddiant i staff Cymraeg i loywi eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg
 - cefnogi neu drefnu hyfforddiant i staff di-Gymraeg sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg a
 - chefnogi neu drefnu hyfforddiant swydd-gysylltiedig drwy gyfrwng y Gymraeg lle y canfyddir angen o'r fath, er mwyn hwyluso gweithredu'r cynllun.

Recriwtio

- 5.1.10 Bydd CCAUC yn nodi'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd ac yn cadarnhau'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen pan fydd swyddi presennol yn mynd yn wag.
- 5.1.11 Pan ystyrir bod gallu ieithyddol yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd gyda CCAUC, pennir hyn yn yr hysbysebion a disgrifiadau swydd wrth recriwtio i'r swydd honno. Bydd pob hysbyseb yn cynnwys datganiad ar ymrwymiad CCAUC i ddwyieithrwydd.
- 5.1.12 Os bydd siaradwr di-Gymraeg yn cael ei benodi i swydd lle yr ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, un o amodau'r gyflogaeth fydd dysgu'r iaith i'r lefel angenrheidiol o fewn cyfnod rhesymol o amser y cytunir arno.

Ym mhob trefniant o'r math hwn, bydd CCAUC yn rhoi'r amser a'r cymorth sy'n angenrheidiol i alluogi'r aelod staff i fodloni'r amod, a bydd yn sicrhau nad yw'r aelod staff dan anfantais mewn ffyrdd eraill o ganlyniad i fodloni'r amod hwn. Bydd y rhaglen ddysgu'n cael ei strwythuro a'i monitro'n rheolaidd i sicrhau bod y cyflogwr a'r aelod staff yn cadw at yr ymrwymiad.

5.2 Trefniadau gweinyddol

- 5.2.1 Mae'r ymrwymïadau a'r trefniadau a nodir yn y Cynllun hwn wedi cael eu cymeradwyo gan ein Cyngor a chânt eu gweithredu gydag awdurdod llawn CCAUC.
- 5.2.2 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau y gweithredir y Cynllun. Y Cyfarwyddwyr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Datblygu Strategol sy'n gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w cylchoedd gwaith hwy. Y Rheolwr Cyfathrebu (a elwir yn Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg at bwrpas y Cynllun hwn) sy'n gyfrifol am gydlynu'r Cynllun cyfan. Mae'r Rheolwr Cyfathrebu yn gyfrifol yn arbennig am Ran 1, tra bo gan yr Uwch Reolwr Dysgu ac Addysgu sy'n ymdrin â pholisi ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gyfrifoldebau penodol i ddwyn Rhan 2 ynghyd. Nodir cyfrifoldebau penodol yn y tabl gweithredu isod
- 5.2.3 Rhoddir canllawiau i'r staff ar eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun a'r hyn y mae gofyn iddynt ei wneud i sicrhau ei weithrediad. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar agweddau ar y Cynllun y mae'n rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol ohonynt ac arweiniad mwy manwl ar agweddau penodol at ddefnydd staff perthnasol.
- 5.2.4 Bydd staff newydd yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun fel rhan o'r broses sefydlu a threfnir hyfforddiant pellach os oes angen.
- 5.2.5 Byddwn yn parhau i ymgorffori agweddau Cymraeg ar ein gwasanaethau yn ein trefniadau gweinyddol arferol
- 5.2.6 Mae CCAUC yn cadw rhestr gyfoes o'r staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu ymateb i aelodau o'r cyhoedd yn y Gymraeg neu sy'n gallu helpu staff di-Gymraeg i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodir y staff dan sylw ar y llyfr ffôn mewnol ac mae'r rhestr ar gael hefyd ar wefan CCAUC.
- 5.2.7 Defnyddir cyfieithwyr allanol fel y bo angen. Cedwir rhestr o gyfieithwyr, wedi'i seilio ar ddyfynbrisiau cystadleuol a geisir o bryd i'w gilydd. Mae safon y cyfieithu yn ffactor hanfodol yn y broses o ddewis cyfieithwyr.
- 5.2.8 Bydd meddalwedd gwirio sillafu/gramadeg a geiriaduron electronig ar gael i'r staff a chaiff y rhain eu diweddarau fel y bo angen.
- 5.2.9 Byddwn yn gwneud pob ymdrech bosibl i sicrhau nad yw ein systemau TG a chyfarpar cyfrifiadurol yn llesteirio gweithredu'r ymrwymïadau a'r mesurau a ddisgrifir yn y Cynllun Iaith hwn. Bydd unrhyw fanylebau ar gyfer systemau

TG neu raglenni cyfrifiadurol newydd yn cymryd y Cynllun Iaith hwn i ystyriaeth fel y bo'n briodol.

5.3 Gwasanaethau a ddarperir ar ran CCAUC gan bartïon eraill

- 5.3.1 Bydd CCAUC yn sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd partiön sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gyson â rhwymedigaethau'r Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau a roddir allan ar contract. I gyflawni hyn bydd CCAUC yn:
- nodi mewn dogfennau tendr a chontractau ac yn amodau grantiau a benthyciadau, unrhyw ofynion arbennig ynghylch y defnydd o'r Gymraeg, ac yn
 - monitro gofynion o'r fath i sicrhau bod y contractwr yn eu bodloni.
- 5.3.2 Os bydd CCAUC yn penodi ymgynghorwyr allanol i ymgymryd ag astudiaethau neu adolygiadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru, bydd yn nodi unrhyw ofynion o ran darparu gwasanaethau yn y Gymraeg neu ystyried materion cyfrwng Cymraeg fel y bônt yn briodol i'r prosiectau dan sylw.
- 5.3.3 Bydd dogfennau tendr mewn Saesneg yn unig fel rheol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus a sicrhau bod y broses dendro yn gost-effeithiol.
- 5.3.4 Eithriadau tebygol i 5.3.3 uchod fydd tendrau am hyfforddiant iaith Gymraeg neu am waith ymgynghori yn ymwneud â darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg.
- 5.3.5 Yn ogystal, mae'r ASA ei hunan wedi'i dynodi'n gorff y mae ei wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn dod o dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae ganddi ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun.

5.4 Monitro

- 5.4.1 Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gydlynu monitro'r Cynllun cyfan. Mae'n gyfrifol yn arbennig am gydlynu monitro Rhan 1, tra bo gan yr Uwch Reolwr Dysgu ac Addysgu gyfrifoldebau penodol dros gydlynu monitro Rhan 2.
- 5.4.2 Bydd adroddiadau ffurfiol ar y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Rheoli CCAUC, sy'n cynnwys uwch reolwyr ac a gadeirir gan y Prif Weithredwr. Bydd Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg yn gofyn i'r staff sy'n gyfrifol am y gwahanol rannau o'r Cynllun, fel y nodir yn y cynllun gweithredu isod, gyflwyno adroddiadau bob tymor (dair gwaith y flwyddyn) ar gynydd. Yna caiff adroddiad ei lunio i'w roi gerbron y Bwrdd Rheoli. Bydd y Bwrdd Rheoli hefyd yn ystyried yr adroddiad cydymffurfio blynyddol ar gyfer rhannau 1 a 3 (gweler 5.4.4 isod) cyn iddo gael ei gyflwyno i Gyngor CCAUC.

5.4.3 Hefyd bydd y gweithgareddau yn Rhan 2 o'r Cynllun yn cael eu monitro wrth fonitro Cynllun Gweithredol CCAUC; mae'r monitro hwn yn cynnwys adroddiadau ar gynnydd i Gyngor CCAUC bob chwarter.

5.4.4 Byddwn yn cyflwyno adroddiad cydymffurfio blynyddol i'n Cyngor a fydd yn rhoi sylw i'r ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- A yw CCAUC yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n gwneud hyn?

Bydd yr adroddiad yn ymdrin â:

- y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd
- datblygiad a gweithrediad y polisi ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch
- sut mae Strategaeth Sgiliau Ieithyddol CCAUC yn dod yn ei blaen (5.1.2)
- pa mor ddigonol yw trefniadau gweinyddol y Cyngor ar gyfer cynnal gweithrediad y Cynllun, a
- chwynion ac awgrymiadau am welliannau a wneir gan y cyhoedd.

Os bydd yr adroddiad cydymffurfio yn nodi unrhyw wendidau, bydd CCAUC yn paratoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain. Anfonir copi o'r adroddiad cydymffurfio i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.4.5 Yn ystod trydedd flwyddyn y Cynllun diwygiedig hwn, bydd CCAUC yn gwerthuso'r modd y gweithredwyd y Cynllun. Bydd yr adroddiad gwerthuso yn:

- darparu dadansoddiad thematig o gydymffurfiaid a pherfformiad dros gyfnod y Cynllun, ac yn
- amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf sy'n deillio o'r gwerthusiad, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun.

5.4.6 Yn sgil y gwerthusiad, bydd CCAUC yn adolygu ac yn diweddarau ei Gynllun Iaith Gymraeg ac yn ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo ar gyfer y cyfnod gweithredu nesaf.

5.4.7 Dylid cyfeirio cwynion am weithrediad y Cynllun yn y lle cyntaf i Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg (yn y cyfeiriad isod). Os methir â datrys y mater i foddhad yr achwynydd wedi ymchwiliad, caiff ei ystyried a'i ddatrys drwy drefn gwyno gyffredinol y Cyngor (a weinyddir gan Glerc y Cyngor, y gellir cysylltu ag ef/hi yn y cyfeiriad isod).

5.5 Targedau

5.5.1 Mae targedau ar gyfer gweithredu pob agwedd ar y Cynllun wedi cael eu nodi isod yn *Adran 6: Cynllun gweithredu a thargedau*.

5.6 Cyhoeddi gwybodaeth

5.6.1 Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn erbyn y Cynllun Iaith Gymraeg yn Adroddiad Blynyddol CCAUC. Cyhoeddir yr adroddiad

cydymffurfio blynyddol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn
www.hefcw.ac.uk.

5.7 Cyhoeddusrwydd

- 5.7.1 Bydd Cynllun Iaith Gymraeg CCAUC yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan, ynghyd â thudalen flaen sy'n amlinellu prif ddarpariaethau'r Cynllun, gan gynnwys gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg i'r cyhoedd. Bydd y dudalen we hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut i wneud ymholiadau neu gwynion am y Cynllun neu awgrymiadau ar gyfer ei wella, a bydd yn cynnwys cysylltau i'r adroddiadau perfformiad/cydymffurfio wrth i'r rhain gael eu cynhyrchu.
- 5.7.2 Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg a'r arweiniad cysylltiedig ar gael i'r staff drwy fewnwyd CCAUC, ac mae mesurau eraill wedi cael eu hamlinellu yn y Cynllun i wneud staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Bydd CCAUC hefyd yn sicrhau bod unrhyw gontractwyr neu asiantau yn cael gwybod am eu rhwymedigaethau fel y bo'n briodol, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r mesurau a nodwyd mewn manau eraill yn y Cynllun hwn.
- 5.7.3 Gellir cael gwybodaeth bellach am y Cynllun hwn gan:

CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru)
Cwrt Linden
Y Berllan
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

6 Cynllun Gweithredu a Thargedau

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
Egwyddorion cyffredinol		Mae llawer o'r gweithredoedd canlynol eisoes yn eu lle. Fodd bynnag, bydd angen i CCAUC barhau i wneud cynnydd i sicrhau'r canlyniadau sydd eu heisiau arnom. Dyma pam yr ydym yn amlinellu gweithredoedd sy'n parhau, yn ogystal â chamau ychwanegol, drwy'r cynllun gweithredu hwn.			
	1.1.1	Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.	Staff i gael gwybod am eu cyfrifoldebau drwy: <ul style="list-style-type: none"> • Ddiweddariadau blynyddol mewn cyfarfodydd staff a thîm 	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
			<ul style="list-style-type: none"> • Y broses sefydlu • Y fewnwyd a gwefan CCAUC 	Yn ei lle.	Penaethiaid timau
1.1 Cynllunio: polisiau a chynlluniau newydd a diwygiedig		Mae'r ymrwymïadau yn yr adran hon o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cynrychioli arfer presennol i raddau helaeth. Cymerir y camau ychwanegol canlynol.			
	1.1.1	Mae aelodau penodol o'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.	Staff allweddol sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio neu weithredu'r Cynllun, neu elfennau o'r Cynllun, i fod yn ymwybodol o ofynion y Cynllun drwy gyfarfod bob tymor (deirgwaith y flwyddyn) mewn cyfarfodydd monitro gyda Swyddog y Cynllun Iaith	Yn ei lle.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg Swyddogion cyfrifol eraill yn

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
			Gymraeg. Y Cynllun Iaith Gymraeg i gael ei fonitro drwy'r Bwrdd Rheoli.		y Cynllun Gweithredu
	1.1.2-4	Asesir pob polisi newydd neu ddiwygiedig i benderfynu ar ei oblygiadau ar gyfer yr iaith Gymraeg.	Materion iaith Gymraeg i gael eu hystyried drwy brosesau arferol CCAUC: <ul style="list-style-type: none"> • asesu goblygiadau polisiâu ar gyfer yr iaith Gymraeg yn holl bapurau'r Bwrdd Rheoli a'r Cyngor; • proses asesiad effaith cydraddoldeb (AEC) mewnol ac allanol ffurfiol. 	Yn ei lle.	Perchenogion polisi Penaethiaid timau
	1.1.2-4	Meddylfryd dwyieithog anffurfiol, gyda dysgwyr yn ymgyfarwyddo â thermau Cymraeg.	Ystyried a all unrhyw ffurflenni electronig mewnol sefydlog, megis ffurflenni ar gyfer gwyliau blynyddol neu deithio a chynhaliaeth, gael eu cyhoeddi fel ffurflenni dwyieithog.	O fewn 12 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Rheolwr AD a Hyfforddiant
1.2 Darparu gwasanaethau	1.2.3 – 4	Cymerir materion iaith Gymraeg a gofynion diwylliannol Cymraeg i ystyriaeth mewn gwaith partneriaeth gyda:	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg i gyfarfod â chyfarwyddwyr a phenaethiaid timau i drafod gweithio mewn partneriaeth, fel rhan o'r broses o fonitro gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
		<p>a) sefydliadau, asiantaethau a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru; a</p> <p>b) cyrff y mae sector addysg uwch y DU yn berchen arnynt, o fewn cwrpas eu cylchoedd gwaith.</p>			
1.3 Safonau gwasanaeth	1.3.1 - 2	Mae CCAUC yn darparu gwasanaeth o'r un safon uchel i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.	<p>Cyhoeddi ymrwymiad CCAUC i wasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg ar wefan CCAUC ac mewn dogfennau perthnasol eraill megis Adroddiad Blynyddol, Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Corfforaethol CCAUC.</p> <p>Rhoi sylw i a monitro unrhyw gwynion a dderbynnir am safon y gwasanaeth a ddarperir gan CCAUC drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Defnyddio sianeli eraill, megis arolygon ymhlith rhanddeiliaid allanol ac arolygon ar y wefan i asesu barn pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg.</p>	<p>Yn ei lle.</p> <p>Wrth iddynt godi.</p> <p>Arolwg Rhanddeiliaid nesaf: Rhagfyr 2010.</p>	<p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg / Clerc y Cyngor</p> <p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p>

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
			Diwygio ac ychwanegu at restr o dermau CCAUC, sydd ar gael ar y fewnwyd.	Bob blwyddyn.	Cydlynu gan Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
2.1 Gohebiaeth ysgrifenedig		Mae llawer o'r gweithredoedd canlynol eisoes yn eu lle. Fodd bynnag, bydd angen i CCAUC barhau i wneud cynnydd i sicrhau'r canlyniadau sydd eu heisiau arnom. Dyma pam yr ydym yn amlinellu gweithredoedd sy'n parhau, yn ogystal â chamau ychwanegol, drwy'r cynllun gweithredu hwn.			
	2.1.1-7	Mae'r holl staff yn gwybod sut i ymateb i e-hebiaeth a llythyrau a dderbynnir yn y Gymraeg, neu lle y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith.	Cyhoeddi canllawiau diwygiedig.	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun a'u hadolygu bob blwyddyn wedi hynny.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	2.1.3	Mae CCAUC yn ymwybodol o: a) aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol sy'n dymuno derbyn	Cadw rhestr o'r rheiny sy'n dymuno derbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Cadw rhestr o ohebiaeth, ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth a dderbynnir ac a atebir drwy gyfrwng y Gymraeg.	I'w chynnal ac ychwanegu ati o'r adeg y cymeradwyir y Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
		<p>gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg;</p> <p>b) nifer yr eitemau o ohebiaeth, ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth a dderbynnir ac a atebir drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn.</p>	<p>Ymchwilio i sut y gall y system llyfr post yn CCAUC gael ei defnyddio i gadw cofnodion am y Cynllun Iaith Gymraeg.</p>	<p>O fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.</p>	<p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p>
	2.1.3	<p>Mae aelodau'r cyhoedd yn gwybod bod croeso iddynt ohebu â CCAUC drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Diwygio'r canllawiau ar awto-atebion allan o'r swyddfa.</p> <p>Ailgyhoeddi'r canllawiau ar awto-lofnodion fel rhan o Ganllaw Arddull CCAUC.</p> <p>Cynnig llofnod 'iaith gwaith' i bob aelod o'r staff sy'n gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Rhoi'r adolygiad ar waith yn 2009/10. Adolygiad pellach yn y Gaeaf 2010/11.</p> <p>O fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.</p> <p>O fewn 12 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.</p>	<p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p>

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/ Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
			Cynnwys safon gwasanaeth ar wefan CCAUC.	Yn ei lle.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
2.2 Cyfathrebu dros y ffôn	2.2.1-6	Mae aelodau'r cyhoedd yn gwybod bod croeso iddynt ohebu â CCAUC drwy gyfrwng y Gymraeg.	Gweithredwyr switsfwrdd i wybod pa staff sy'n gallu siarad Cymraeg.	Yn ei lle.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
			Cynnwys safon gwasanaeth ar wefan CCAUC.	Yn ei lle.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	2.2.1-6	Mae'r staff yn gwybod sut i ymdrin â galwadau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg.	Rhoi canllawiau diwygiedig i'r holl staff.	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	2.2.5	Mae gweithredwyr switsfwrdd / staff derbynfa yn gallu ymdrin ag ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.	Rhoi canllawiau diwygiedig i'r gweithredwyr switsfwrdd / staff derbynfa presennol.	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
			Ceisio penodi siaradwyr Cymraeg a Saesneg rhugl drwy hysbysebion swydd yn	Wrth i swyddi gwag godi.	Rheolwr AD a Hyfforddiant

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
			<p>y dyfodol ar gyfer gweithredwyr switsfwrdd / staff derbynfa.</p> <p>CCAUC i ddarparu hyfforddiant digonol lle na ellir gwneud hyn.</p>		Rheolwr AD a Hyfforddiant
2.3 Cyfarfodydd cyhoeddus		Mae'r ymrwymïadau yn yr adran hon o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cynrychioli arfer presennol i raddau helaeth. Cymerir y camau ychwanegol canlynol.			
	2.3.2	Mae staff CCAUC yn gallu penderfynu a ddylid cynnal seminar neu gynhadledd CCAUC drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n ddwyieithog.	<p>CCAUC i adolygu'r arweiniad a'i ailddosbarthu ymysg ei staff.</p> <p>Penaethiaid timau i ymglyfarwyddo â'r arweiniad er mwyn gallu rhoi cyngor i'w timau.</p>	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	<p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Penaethiaid timau</p>
	2.3.3	Gall staff Cymraeg eu hiaith sy'n bresennol mewn digwyddiadau o bwys gael eu hadnabod drwy fathodyn.	<p>Templed 'bathodyn' CCAUC i gynnwys symbol i ddynodi siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Bathodynnau 'Siaradwr Cymraeg' i fod ar gael i'r staff a phan wneir cais.</p>	<p>O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun.</p> <p>Yn ei lle.</p>	<p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Gweinyddwyr timau / cyfarwydd-iaethau</p>

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
2.4 Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd	2.4.1- 2.4.3	Gall aelodau'r cyhoedd ymdrin ag ymholiadau wyneb yn wyneb CCAUC yn y Gymraeg.	CCAUC i adolygu'r arweiniad a'i ailddosbarthu ymysg ei staff. Cadw enwau siaradwyr Cymraeg hysbys ar y rhestr ffôn fewnol ac ar restr gwefan CCAUC er mwyn gallu eu hadnabod yn hawdd.	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun. Yn ei lle.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	2.4.3	Gall staff CCAUC, os cânt ddigon o rybudd ac adnoddau, drefnu cyfarfodydd gydag unigolion drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n ddwyieithog.	CCAUC i adolygu'r arweiniad a'i ailddosbarthu ymysg ei staff. Y staff i ymgyswngu â'r arweiniad.	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg Penaethiaid timau
3.1 Hunaniaeth gorfforaethol		Mae'r ymrwymïadau yn yr adran hon o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cynrychioli arfer presennol. Cymerir y camau ychwanegol canlynol i gyflawni'r canlyniadau.			
	3.1.1	Mae gan CCAUC hunaniaeth	Rhoi arweiniad i'r staff o fewn Canllaw Arddull CCAUC.	Yn ei lle. Canllawiau i gael	Swyddog y Cynllun Iaith

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
		gorfforaethol lwyr ddwyieithog yng Nghymru.	<p>Adolygu canllawiau hunaniaeth frand CCAUC bob blwyddyn.</p> <p>Adolygu ac ailgyhoeddi cyfarwyddiadau diweddarau gwefan ar gyfer y wefan newydd, er mwyn parhau i sicrhau bod y cynnwys gwe Cymraeg a Saesneg yn cael ei lwytho i fyny i'r wefan ar yr un pryd a bod awduron gwe yn gwybod pa gynnwys a ddylai fod yn ddwyieithog.</p> <p>Archwilio'r arwyddion yn y swyddfa bob blwyddyn.</p> <p>Archwilio pob arwydd newydd.</p> <p>CCAUC i gael dau stand baner llwyr ddwyieithog i sicrhau presenoldeb corfforaethol allanol dwyieithog cryfach.</p>	<p>eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.</p> <p>Yn ei lle</p>	<p>Gymraeg</p> <p>Rheolwr AD a Hyfforddiant</p> <p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p>
3.2 Arwyddion	3.2.1-3.2.4	Mae'r ymrwymïadau yn yr adran hon yn cynrychioli arfer presennol.			
		Mae gan CCAUC hunaniaeth swyddfa lwyr ddwyieithog.	<p>Rhoi arweiniad i'r staff o fewn Canllaw Arddull CCAUC.</p> <p>Archwilio arwyddion yn y swyddfa bob blwyddyn.</p>	<p>Yn ei lle.</p> <p>Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r</p>	<p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Rheolwr AD a Hyfforddiant</p>

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed Cynllun.	Swyddog sy'n gyfrifol
3.3 Deunyddiau sy'n cael eu cyhoeddi a'u hargraffu		Mae'r ymrwymiadau yn yr adran hon yn cynrychioli arfer presennol i raddau helaeth.			
	3.3.1	Mae gan CCAUC restr o gyhoeddiadau a fydd ar gael yn ddwyieithog.	Y rhestr i gael ei hadolygu bob blwyddyn, gan gymryd i ystyriaeth rôl gwefan CCAUC.	Yn ei lle. Adolygu bob 12 mis.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	3.3.3	Mae'r staff yn gwybod sut i drefnu bod dogfennau cyfrwng Cymraeg ar gael, gan gynnwys sicrhau bod crynodebau gweithredol neu gyflwyniadau i ddogfennau, adroddiadau neu ddarnau o ymchwil arbenigol mawr yn y Saesneg ar gael yn eang yn y Gymraeg.	Cynhyrchu arweiniad i staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwr ar gyhoeddiadau dwyieithog. Rhoi arweiniad i staff drwy gyfrwng yr Arweiniad ar y Cynllun Iaith Gymraeg a Chanllaw Arddull CCAUC. Staff i geisio cyngor yn gynnar yn y broses gan y swyddog sy'n gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg.	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
Gwefan CCAUC					
	3.3.10-12	Mae'r holl gynnwys uniongyrchol ar y wefan ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn cael ei gynnal.	Adolygu ac ailgyhoeddi cyfarwyddiadau diweddarau gwefan ar gyfer y wefan newydd, er mwyn parhau i sicrhau bod cynnwys Cymraeg a Saesneg yn cael ei lwytho i fyny i'r wefan yr un pryd a bod yr awduron gwe yn gwybod pa gynnwys a ddylai fod yn ddwyieithog.	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
3.4 Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig	3.4.1	Mae gan CCAUC restr o ffurflenni mewnol ac allanol sydd ar gael yn ddwyieithog.	Adolygu'r rhestr bob blwyddyn.	O fewn 12 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
3.5 Datganiadau i'r wasg	3.5.1	Gall CCAUC gynghori staff a chyrrff allanol ynghylch pryd y dylai datganiad i'r wasg ar y cyd (CCAUC a chorff arall / cyrrff eraill) gael ei gyhoeddi'n ddwyieithog.	Bob blwyddyn, CCAUC i gadw cofnod o ddatganiadau i'r wasg a gyhoeddir ar y cyd gyda chyrrff eraill ac i adolygu'r penderfyniadau a wneir. Paratoi arweiniad i'r staff.	Canllawiau i gael eu cyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
3.6 Cysylltiadau cyhoeddus a Marchnata	3.6.1-3.6.2	Mae deunydd cyhoeddusrwydd CCAUC ar gael yn ddwyieithog.	Ystyried arweiniad ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu llenyddiaeth cyhoeddusrwydd.	Canllawiau i gael eu hystyried o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/ Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
				Cynllun.	
	3.6.3	Bydd CCAUC wedi cynnal unrhyw arolygon cyhoeddus neu arolygon rhanddeiliaid mawr yn ddwyieithog.	Ystyried arweiniad ar gyfer cynnal arolygon cyhoeddus ac arolygon rhanddeiliaid mawr.	Canllawiau i gael eu hystyried o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	3.6.4	Mae standiau baner a llenyddiaeth CCAUC yn ddwyieithog.	CCAUC i adolygu'r gofynion yn y maes hwn, yn enwedig llenyddiaeth. CCAUC i brynu dau stand baner dwyieithog newydd.	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun. Yn ei lle.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
3.7 Hysbysiadau swyddogol, Hysbysiadau cyhoeddus a Hysbysebion recriwtio staff	3.7.1	Cyhoeddir hysbysiadau (cyhoeddus) swyddogol yn y Gymraeg.	Ystyried arweiniad ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus.	Canllawiau i gael eu hystyried o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	3.7.2.-3	Cyhoeddir pob hysbyseb yng Nghymru yn	CCAUC i ystyried bob blwyddyn ble i hysbysebu, yn unol â dulliau hysbysebu arferol yr adran Adnoddau Dynol.	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun.	Rheolwr AD a Hyfforddiant

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
		ddwyieithog.			
		Gall ymgeiswyr gyflwyno eu ffurflenni cais yn y Gymraeg neu'r Saesneg.	Arfer presennol.	Yn ei lle.	Rheolwr AD a Hyfforddiant
5 Gweithredu a monitro					
5.1 Staffio, Datblygu staff a Recriwtio staff					
Strategaeth Sgiliau leithyddol	5.1.3	Mae gan CCAUC ddigon o staff Cymraeg eu hiaith i ddarparu ei wasanaethau yn y Gymraeg, yn ôl y gofyn.	Nodi unrhyw fylchau mewn hyfforddiant swydd-gysylltiedig a darparu gwasanaethau drwy wneud archwiliad blynyddol o wasanaethau a staff. Y canlyniadau i ddod yn strategaeth sgiliau ieithyddol CCAUC.	Parhaus Parhaus	Rheolwr AD a Hyfforddiant
Recriwtio staff	5.1.10		Bob tro mae swydd wag yn codi, CCAUC i ailystyried a yw'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, neu heb ei angen fel sgil.	Parhaus	Rheolwr AD a Hyfforddiant
	5.1.8		Ymgeiswyr posibl am swyddi i fod yn ymwybodol o gyfleoedd hyfforddi a datblygu yn yr iaith Gymraeg cyn gwneud cais (e.e. mewn pecynnau gwneud cais	Canllawiau i gael eu hystyried o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r	Rheolwr AD a Hyfforddiant

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
<i>Datblygu staff</i>		Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog a'u helpu i ddefnyddio a / neu ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle.	<p>neu ar wefan CCAUC). CCAUC i adolygu sut y gall ddefnyddio ei ddatganiad o ymrwymiad i ddwyieithrwydd (mewn hysbysebion, ar wefan, ac ati).</p> <p>Asesu'r angen am hyfforddiant swydd-gysylltiedig, yn ôl y gofyn (bob blwyddyn, yn bennaf drwy broses werthuso).</p> <p>Darparu hyfforddiant yn fewnol neu allanol ar gyfer staff ar bob lefel, i adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed eisoes yn y maes hwn.</p> <p>Llenwi holiadur ar sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o'r broses sefydlu ar gyfer staff newydd.</p>	Cynllun.	<p>Rheolwr AD a Hyfforddiant</p> <p>Rheolwr AD a Hyfforddiant</p> <p>Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg</p>
5.2 Trefniadau gweinyddol	5.2.3	Mae'r arweiniad a'r cynllun gweithredu yn gyfoes ac yn unol ag arferion cyfredol.			
<i>Adolygu'r arweiniad a'r cynllun gweithredu</i>	5.2.3	Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â Chynllun Iaith Gymraeg CCAUC.	<p>Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr i fod yn ymwybodol o ofynion y Cynllun drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> gyfarfod bob tymor mewn cyfarfodydd monitro gyda Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; ac adroddiadau monitro bob tymor i'r Bwrdd Rheoli, sy'n atgyfnerthu 	Adolygu'r canllawiau presennol o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
			cyfrifoldebau. Gwybodaeth i fod ar gael ar fewnrwyd CCAUC, mewn sesiynau sefydlu, ac ym mhob cyfarfod staff.	Datblygu amserlen a blaenoriaethau ar gyfer adolygu'r arweiniad.	
	5.2.4	Mae staff perthnasol eraill yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau penodol o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.	Staff allweddol sy'n gyfrifol am oruchwylio neu weithredu'r Cynllun, neu elfennau o'r Cynllun, i fod yn ymwybodol o ofynion y Cynllun drwy: <ul style="list-style-type: none"> • gyfarfod bob tymor mewn cyfarfodydd monitro gyda Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; ac • adroddiadau monitro bob tymor i'r Bwrdd Rheoli, sy'n atgyfnerthu cyfrifoldebau. Gwybodaeth i fod ar gael ar fewnrwyd CCAUC, mewn sesiynau sefydlu, ac ym mhob cyfarfod staff.	Yn ei lle.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg Penaethiaid timau
	5.2.5	Mae'r holl staff yn ymwybodol o gyfrifoldebau cyffredinol CCAUC o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.	Staff i gael gwybod am eu cyfrifoldebau drwy: <ul style="list-style-type: none"> • Ddiweddariadau blynyddol mewn cyfarfodydd staff a thîm • Y broses sefydlu • Y fewnrwyd a gwefan CCAUC. 	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg Penaethiaid timau

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
	5.2.7	Gellir ymdrin ag ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.	<p>Diwygio'r arweiniad ar gyfer ymdrin ag ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Nodi staff Cymraeg eu hiaith ar y llyfr ffôn mewnol. Diwygio hwn ar ôl archwiliadau iaith ac wrth recriwtio staff newydd.</p> <p>Contract cyfieithu priodol yn ei le.</p> <p>Mae meddalwedd gwirio sillafu / cyfeirlyfrau ar gael.</p>	Yn ei lle. Canllawiau i gael eu diwygio a'u hailgyhoeddi o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	
5.3 Gwasanaethau a ddarperir ar ran CCAUC	5.3.1-5.3.4				
	5.3.5	Mae cytundebau gyda thrydydd partion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â rhwymedigaethau'r Cynllun.	Adolygu'r arweiniad ac atgoffa staff o ofynion iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg wrth dendro.	O fewn 9 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg / Rheolwr Caffael

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
5.4 Monitro	5.4.2 5.4.3 5.4.4	<p>Mae'r Bwrdd Rheoli'n monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg deirgwaith y flwyddyn.</p> <p>Mae'r Bwrdd Rheoli yn ystyried yr adroddiad cydymffurfio blynyddol.</p> <p>Mae Cyngor CCAUC yn ystyried yr adroddiad cydymffurfio blynyddol.</p>	Paratoi adroddiadau priodol ar gyfer pob cyfarfod yn unol â'r amserlen.	Parhaus.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	5.4.5-6	Mae CCAUC wedi paratoi ac wedi cyhoeddi (yn www.hefcw.ac.uk) adroddiad yn ystod trydedd flwyddyn y Cynllun sy'n gwerthuso'r Cynllun, gyda'r nod o'i ddiwygio ar	<p>Paratoi amserlen/strwythur yn chwarter cyntaf y drydedd flwyddyn.</p> <p>Y gwerthusiad i gymryd gwybodaeth fonitro yn ystod y tair blynedd diwethaf i ystyriaeth.</p>	2 flynedd a 3 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

Maes	Rhif Paragraff	Canlyniad	Gweithred	Amserlen/Targed	Swyddog sy'n gyfrifol
		gyfer y tair blynedd nesaf.			
	5.71	Mae'r wybodaeth gysylltiedig yn glir ac ar gael yn www.hefcw.ac.uk .	Diwygio cynnwys y dudalen we i wneud prif ddarpariaethau'r Cynllun yn glir.	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
5.6 Cyhoeddi gwybodaeth a 5.7 Cyhoeddus-rwydd	5.7.2	Mae asiantau a chontractwyr yn gwybod am eu rhwymedigaethau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.	Cyhoeddi'r Cynllun ac arweiniad priodol ar wefan CCAUC, ac atgyfnerthu hyn mewn dogfennau tendr. Staff i fod yn ymwybodol o'r Cynllun wrth drafod contractau, ac ati.	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun ac wrth i arweiniad ar dendro / contractio ymddangos yn ystod oes y Cynllun.	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg Rheolwr Caffael